CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 19 Tachwedd 2024 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

YY Cynghorwyr Jason McLellan, yr Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Diane King, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Alan James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Julie Matthews, y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Pauline Edwards, Hugh Irving, Brian Jones, Terry Mendies ac Andrea Tomlin

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS), Llywodraethu a Busnes / Swyddog Monitro (GW), a'r Amgylchedd a'r Economi (TW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Archwilio (LT) a Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau (HVE); Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad (EH); Rheolwr Tîm Prisio ac Ystadau (RE); Rheolwr Datblygu Masnachol (GT); Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaeth Digartrefedd (NJ), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ ac SLW [Gwe-ddarlledwr])

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad.

3 MATERION BRYS

Caniataodd yr Arweinydd gwestiwn gan y Cynghorydd Terry Mendies yn ymwneud â'r Gwasanaeth Bws X51 (Wrecsam - Rhyl) i Landegla.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mendies at gŵyn a dderbyniwyd yn ddiweddar ynglŷn â Gwasanaeth Bws X51 lle'r oedd y gyrrwr wedi gwrthod dilyn y llwybr dynodedig trwy Landegla oherwydd niwl. Gofynnodd a allai'r Aelod Arweiniol, Barry Mellor ddarparu copi o'r cytundeb rhwng y Cyngor â'r cwmni bws o ran y llwybr a'r oriau gweithredu ac os oedd yna unrhyw ddarpariaethau ar gyfer cosbau neu ddirwyon ariannol mewn achos o leihau gwasanaeth. Mae cyswllt wedi cael ei wneud gyda'r cwmni bysiau a oedd yn edrych i mewn i'r achos. Mae'r gŵyn ddiweddaraf yn dilyn

yr amhariad blaenorol i'r gwasanaeth oherwydd y cyfyngiad cyflymder 20mya a'r parcio yn ymyl y man troi yn y pentref. Roedd y Cynghorydd Mendies yn cydnabod gwaith caled y Cynghorydd Mellor mewn datrys problemau yn y gorffennol a gofynnodd a fyddai'n mynychu cyfarfod gydag ef a'r cwmni bysiau ar yr achos a phwysleisio pwysigrwydd y gwasanaeth i breswylwyr.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Barry Mellor y byddai'n codi'r achos gyda Rheolwr Cludiant Gweithredol y Cyngor ar ôl iddi ddychwelyd i edrych ymhellach i mewn i'r achos ac i benderfynu os oedd y gwasanaeth wedi bod yn gweithredu'n fasnachol neu o dan gytundeb yn ystod amser y gŵyn. Cytunodd hefyd i ddarparu copi o'r cytundeb yn ôl y gofyn ac i gyfathrebu gyda'r cwmni bysiau gyda'r bwriad o drefnu cyfarfod.

Diolchodd y Cynghorydd Mendies i'r Cynghorydd Mellor am ei gymorth gyda hyn.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod Cabinet Arbennig a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2024 a chyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2024.

PENDERFYNWYD *derbyn cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2024 a 22 Hydref 2024 a chadarnhau eu bod yn gywir.*

5 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL: EBRILL I FEDI 2024

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad a oedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad y Cyngor yn erbyn ei Gynllun Corfforaethol o fis Ebrill i fis Medi 2024 gan gynnwys yr amcanion Cydraddoldeb Strategol a'r saith maes llywodraethu allweddol.

Amlygwyd y cyd-destun ariannol presennol a'r effaith anochel y byddai'n ei gael ar safon gwasanaethau. Fodd bynnag roedd hefyd yn bwysig cydnabod y gwaith gwych sy'n cael ei wneud er gwaethaf yr heriau eithriadol a chredai'r Cynghorydd Ellis fod hynny'n adlewyrchu gwaith caled a dyfalbarhad staff y cyngor. Gwnaeth gyfeiriad penodol at y newidiadau cadarnhaol mewn darparu gwasanaethau digartrefedd a oedd hefyd wedi creu arbediad sylweddol a chanlyniad cadarnhaol o Asesiad Perfformiad Panel diweddar. Pwysleisiwyd pwysigrwydd y ddogfen fel offer rheoli perfformiad ac mewn monitro cynnydd.

Mynychodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau a'r Swyddog Cynllun Strategol a Pherfformiad ar gyfer yr eitem hon. Gofynnwyd eisoes am gymeradwyaeth Cabinet o'r Adroddiad Diweddariad ar Berfformiad cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn amcanion perfformiad a hefyd yn adnabod dangosyddion neu weithgareddau a oedd yn Amcanion Cydraddoldeb neu'n cyfrannu at y Gymraeg a Diwylliant ynghyd ag astudiaethau achos fel enghreifftiau o'r gwaith da sy'n cael ei wneud. Darparodd y Swyddog Cynllun Strategol a Pherfformiad drosolwg cyffredinol o berfformiad a thynnu sylw at rai o'r uchafbwyntiau a gafodd eu trafod yn yr adroddiad eglurhaol. Ar y cyfan ac o

ystyried yr amseroedd heriol yn ariannol mae'r adroddiad wedi dangos fod y cyngor yn gweithio ar werthoedd ac egwyddorion ei hun yn ogystal ag egwyddorion lles i greu canlyniadau ardderchog ledled amrywiaeth o wasanaethau. Cafodd rhagor o fanylion eu cynnwys ar y camau gweithredu gwelliant a nodwyd.

Bu i'r Arweinydd ddiolch i'r Aelod Arweiniol a'r swyddogion am y trosolwg a'r negeseuon allweddol sy'n codi o'r adroddiad perfformiad. Roedd Cabinet yn cydnabod y meysydd i'w gwella yn yr adroddiad ac effaith y sefyllfa ariannol ynghyd â'r canlyniadau a chyraeddiadau cadarnhaol er gwaethaf yr heriau ariannol hynny gan dalu teyrnged i waith caled y staff a'r gwaith sydd wedi cael ei wneud i greu'r adroddiad.

Codwyd y materion canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd –

- Roedd y Cynghorydd Rhys Thomas wedi tynnu sylw yn arbennig at y gwaith da a wnaed yn y sector dai yn cynnwys cynnal perthnasau da gyda thenantiaid a'r ymateb i ddigartrefedd gan ganmol staff am y gwaith y maen nhw wedi'i gyflawni.
- Mae gofyn i bob awdurdod lleol yng Nghymru i greu Cynllun Corfforaethol (sydd fel arfer yn cynnwys yr amcanion lles disgwyliedig) ond mae ei ymddangosiad a'r cyfnod o amser y mae'n ei drafod yn amrywio dros y gwahanol awdurdodau.
- Darparodd swyddogion eglurhad o'r fethodoleg rheoli perfformiad sy'n cael ei ddefnyddio gyda pherfformiad un ai'n cael ei feincnodi'n genedlaethol neu'n lleol. Pan fydd perfformiad yn cael ei feincnodi'n genedlaethol bydd yn cael ei fesur yn erbyn llawer neu bob un o'r awdurdodau lleol eraill yng Nghymru gyda'r chwartel uchaf o berfformiad yn cael ei weld fel y perfformiad gorau; pan nad oes data cenedlaethol cymaradwy bydd gwaith yn cael ei gyflawni gydag arbenigwyr a gwasanaethau i bennu trothwyon perfformiad.
- Gellir mesur tueddiadau data trwy'r platfform Data Cymru gydag awdurdodau lleol yn cael eu gosod mewn grwpiau teuluol o awdurdodau lleol eraill gyda demograffeg debyg ac ati sy'n rhoi mynediad i ddata cymharol ar nifer o swyddogaethau amrywiol. Mae mynediad i Ddata Cymru ar gael i bawb a bydd swyddogion yn rhannu manylion pellach gydag Aelodau Cabinet ynglŷn â hynny y tu allan i'r cyfarfod.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Emrys Wynne at benodiad diweddar y Swyddog Iaith Gymraeg ac mae gwaith ardderchog yn cael ei wneud gan y swyddog hynny a hefyd y Cefnogwyr Cymraeg ledled y cyngor o ran codi ymwybyddiaeth ymysg staff a darparu cyfleoedd i ymarfer a gwella sgiliau iaith Gymraeg.
- Unwaith y bydd Cabinet wedi cymeradwyo cynnwys yr adroddiad bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad. Mae'r Hunanasesiad o Berfformiad ar ddiwedd blwyddyn 2024 i 2025 wedi cael ei gynnwys yn y cylch pwyllgorau gydag adroddiadau i Bwyllgor Craffu Perfformiad, Cabinet ac yna'r Cyngor ym mis Mehefin/Gorffennaf 2025.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn nodi perfformiad y Cyngor yn erbyn ei swyddogaethau ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill a Medi 2024 ac yn cadarnhau cynnwys yr adroddiad i'w gymeradwyo.*

6 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad misol a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

Rhoddwyd crynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2024/25 oedd £271.021 miliwn (£250.793 miliwn yn 2023/24)
- rhagwelwyd y byddai tanwariant o £479,000 mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- y risgiau a'r rhagdybiaethau presennol yn ymwneud â chyllidebau corfforaethol a meysydd gwasanaeth
- arbedion effeithlonrwydd gan wasanaethau ar gyfer cyllideb 2024/25 (£10.384 miliwn) a chynnydd ar gyflawni arbedion a gymeradwywyd oedd yn parhau i gael eu holrhain/monitro
- y wybodaeth ddiweddaraf am Ysgolion, y Cyfrif Refeniw Tai a Rheoli'r Trysorlys.

Arweiniodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio yr Aelodau drwy'r adroddiad. Y rhagdybiaeth oedd bod tanwariant o £479,000 (ac eithrio ysgolion) o'i gymharu â'r gorwariant o £400,000 y mis diwethaf. Mae gwasanaethau yn ei gyfanrwydd yn parhau i orwario mewn meysydd yn cynnwys Addysg a Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd, ac i raddau llai Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad a Thai a Chymunedau. Mae'r rhagfynegiad ar yr alldro presennol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd yn £510,000 o danwariant oherwydd cynnydd yn y tanwariant ar Ddigartrefedd o £300,000 (cyfanswm o £1.3m o danwariant) a'r gorwariant mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion (£790,000). Roedd meysydd risg uchel yn cynnwys lleoliadau preswyl mewn Gwasanaethau Plant, gofal a gomisiynir gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion a Chludiant Ysgolion. Mae'r traciwr arbedion wedi cael ei gynnwys er gwybodaeth ynghyd â'r Cyfrif Refeniw Tai a sefyllfa ysgolion.

Bu i'r Arweinydd ddiolch i'r Aelod Arweiniol a Phennaeth y Gwasanaeth am yr adroddiad manwl gan nodi fod y gyllideb wedi cael ei thrafod mewn manylder mewn amryw o fforymau gwahanol.

Yr oedd prif feysydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y canlynol –

- Tynnodd y Cynghorydd Rhys Thomas sylw at y gwaith gwych sydd wedi cael ei wneud gyda'r gwasanaeth digartrefedd gydag arbedion pellach yn cael eu gwireddu ar y misoedd a fu gyda chynnydd mewn tanwariant o £300,000 sy'n gyfanswm o £1.3m o danwariant. Roedd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio yn cytuno gan dynnu sylw at y newid mewn sefyllfa o orwariant i danwariant gan arddangos yr hyn y gellir ei gyflawni trwy ddilyn ymagwedd Un Cyngor.
- Bu trafodaeth ynghylch y risg sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Tîm Cyllid a'r system ariannol newydd a'r effaith ar fonitro'r gyllideb. Mae'r system newydd wedi disodli nifer o systemau ariannol gwahanol gyda'r modiwl rhagdybiaeth yn ei le ac y byddai'n cymryd amser i fireinio'r system gyda'r tîm o dan bwysau ar hyn o bryd ac felly mae risg yn cael ei nodi o fewn yr adroddiad hwn. Wrth ymateb i gwestiwn dilynol gan y Cynghorydd Hugh Irving fe eglurodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio y sefyllfa bresennol o ran lefelau staffio a throsiant

ynghyd â'r anawsterau gyda recriwtio ar gyfer swyddi penodol yn unol ag eraill yn y sector gyhoeddus. Sicrhawyd er bod y Tîm Cyllid o dan bwysau eu bod nhw'n ymdopi ac yn llwyddo i weithio o dan y pwysau yn ystod y cyfnod hwn.

- Mae cymhlethdodau cynllunio cyllideb wedi'i ategu a chafwyd trafodaeth ar ystyr terminoleg benodol sy'n cael ei ddefnyddio wrth gyfeirio at risg a rhagdybiaeth yn y broses gyllideb. Cadarnhaodd swyddogion nad oedd unrhyw gyllideb yn cael ei osod heb elfen o risg ac wrth osod cyllidebau roedd ystyriaeth yn cael ei roi i batrymau gwariant ac roedd yn hynod o anodd rhagdybio gwasanaethau statudol sy'n cael eu harwain gan alw ac sy'n rhaid eu darparu ac felly roedd hynny'n golygu risg o lefel uwch i'r gyllideb. O ran rheoli risg roedd yn bwysig cynnal lefel digonol o gronfeydd wrth gefn i sicrhau pe bai risgiau yn codi eu bod nhw ddim yn cael effaith andwyol ar y gyllideb ac yn rhoi amser i ddelio gyda'r risgiau hynny wrth iddyn nhw godi. Derbyniwyd bod rhai elfennau o gynllunio cyllideb yn gorfod bod yn seiliedig ar ragdybiaethau gydag amrywiaethau mewn costau, incwm a galw ond bod y problemau a wynebwyd dros y blynyddoedd diwethaf o ran cynnydd mewn costau ynni a chwyddiant ddim wedi gallu cael ei rhagdybio ar yr amser y gosodwyd y gyllideb a thu hwnt i reolaeth y Cyngor. Roedd yn bwysig fod y Cyngor yn onest a thryloyw wrth osod ei gyllideb ac yn trafod y risgiau a'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r rhain. Pwysleisiodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis y pwysigrwydd o reoli ariannol gofalus a chynnal cronfeydd wrth gefn iach gan gynghori fod y Cyngor wedi cael ei reoli'n dda yn ariannol dros nifer o flynyddoedd ac roedd y sefyllfa hynny'n parhau gyda'r Cyngor mewn sefyllfa dda wrth symud ymlaen i ddelio gyda'r risgiau.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2024/25 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni.*

7 RHAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynwyd rhaglen waith y Cabinet i'w hystyried.

PENDERFYNWYD *nodi rhaglen waith y Cabinet*.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD *o dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12, 13 a 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

8 GWAREDU CALEDFRYN, DINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis adroddiad cyfrinachol yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i waredu Caledfryn yn unol ag argymhellion yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys cefndir ar resymoli'r Ystâd Gorfforaethol a'r rhesymeg dros gau Caledfryn ac i roi'r safle ar y farchnad am dendr anffurfiol. Darparwyd manylion ar y broses dendro anffurfiol a'r cynigion a dderbyniwyd. Mae manteision y cynigion wedi cael eu hasesu gan swyddogion ac ymgynghorwyd

arnynt gyda'r Grŵp Rheoli Asedau, aelodau ward lleol a Chabinet. Ar ôl adolygu pob cynnig yn cynnwys y risgiau a'r cyfleoedd; gofynnwyd am gymeradwyaeth Cabinet i waredu Caledfryn i'r cynigydd a enwir yn yr adroddiad.

Pwysleisiodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau y gwaith caled a'r camau gweithredu cyflym a gymerwyd ar draws nifer o wasanaethau er mwyn cyrraedd y cam hwn o'r broses gan ddiolch hefyd i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad a'r ymarfer ymgysylltu am eu cyfraniad gwerthfawr a'u herio adeiladol. Ymhelaethodd ar y gwarediad a argymhellir gan gynnwys y manteision a'r buddion amlwg i Ddinbych a'r ardal leol ynghyd â'r risgiau a'r camau lliniaru mewn perthynas â hynny.

Yn ystod y drafodaeth dyma'r Arweinydd yn diolch i bawb wnaeth gymryd rhan am eu cyfraniad a'r gwaith caled sydd wedi cael ei wneud. Cydnabuwyd pwysigrwydd yr adeilad i Ddinbych ac roedd Cabinet yn falch o nodi ymgysylltiad a mewnbwn aelodau Dinbych a'r aelodau ehangach gyda'r broses o wneud penderfyniad. O ystyried yr angen am newid roedd yr aelod lleol, y Cynghorydd Pauline Edwards o blaid gwaredu Caledfryn ar gyfer yr hyn sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad ac y byddai'n cael ei groesawu gan breswylwyr fel y defnydd gorau o'r adeilad. Fodd bynnag roedd hi'n awyddus i sicrhau pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo bod y trosglwyddiad yn cael ei wneud yn gyflym ac yn esmwyth a bod y safle yn cael ei ddefnyddio i'w llawn botensial cyn gynted â phosib. Tynnodd sylw hefyd at yr angen i gyfathrebu gyda phreswylwyr ar ôl gwneud y penderfyniad. Cytunodd Cabinet gyda'r pwyntiau hynny gan ymholi hefyd os byddai'n bosib cyflwyno amodau yn y gwerthiant o ran amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cwblhau a datblygu. Mynegodd y swyddogion ymhellach fod gwaith paratoi eisoes wedi cael ei wneud ar drosglwyddo ac ar gynnal momentwm gyda'r broses o werthu wrth symud ymlaen. Gall amodau gwerthiant gynnwys yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cyfnewid a chwblhau ynghyd â dyddiad atal hir ar gyfer derbyn caniatâd cynllunio mewn perthynas â'r safle a'i ddatblygiad ar gyfer y dyfodol. Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai'r Cyngor yn gwneud popeth yn ei allu i symud y broses gwerthu a datblygu yn ei flaen mor gyflym â phosib ac wedi rhoi cyfrifoldebau i swyddogion i sicrhau cyfathrebu priodol gyda phreswylwyr Dinbych a bod Grŵp Ardal yr Aelodau Dinbych yn parhau i dderbyn yr holl wybodaeth ddiweddaraf.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraeth a Busnes fod unrhyw benderfyniad sy'n cael ei wneud yn destun cyfnod arferol o alw i mewn cyn y gellir ei weithredu.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn –*

(a) cymeradwyo gwaredu Caledfryn, Dinbych yn unol ag argymhellion yr adroddiad i'r parti a enwir ac ar gyfer y cyfanswm a ddangosir, a

(b) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les.

9 GRANT CYMORTH TAI - PROSIECT CADW FY NGHARTREF - AILGARTREFU CYFLYM

Cyflwynodd y Cynghorydd adroddiad cyfrinachol gyda manylion ar ganlyniad yr ymarfer tendro am wasanaeth cymorth yn ôl yr angen newydd gan ofyn i Gabinet am gymeradwyaeth i ddyfarnu'r cytundeb i'r darparwr a enwir yn yr adroddiad.

Yn unol â'r gwaith o bontio at Ailgartrefu Cyflym, dyluniwyd Gwasanaeth Cadw Fy Nghartref i gefnogi pobl sy'n byw yn Sir Ddinbych i gadw eu llety ac i atal digartrefedd. Darparwyd manylion o'r ymarfer tendro a gwerthuso gyda'r ffioedd tendr wedi'u cadarnhau o fod yn cyd-fynd â'r gyllideb a bod y gwerth am arian wedi cael ei werthuso fel rhan o'r broses caffael. Byddai'r cytundeb am gyfnod o dair blynedd (gyda'r dewis i ymestyn am ddwy flynedd arall) gyda'r gwasanaeth yn dechrau ym mis Mai 2025.

Cyfeiriodd Cabinet at lwyddiant y prosiectau cymorth tai a'u pwysigrwydd mewn atal a mynd i'r afael â digartrefedd. Wrth ymateb i gwestiynau fe ddarparodd y Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaeth Digartrefedd wybodaeth ychwanegol ar gefndir a phrofiad y darparwr cytundeb a argymhellwyd mewn darparu cymorth arbenigol i'r rheiny sy'n gyfrifol am eu llety. Mae elfen bwysig o'r cytundeb yn berthnasol i'r gwasanaeth cyfryngu gyda model wych o gefnogaeth allgymorth pwrpasol i unigolion wedi'i gynnwys yn y tendr.

Ar ôl adolygu'r adroddiad a'r broses dendr a gwerthuso -

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn –*

(a) cydnabod fod ymarfer tendr teg a chadarn wedi ei gynnal yn unol â Rheolau Gweithdrefn Gontractau Sir Ddinbych ac a oedd wedi nodi 'enillydd' clir (fel y nodir ym mharagraff 3.1 yr adroddiad) a oedd wedi amlinellu rhaglen a oedd yn bodloni amcanion a dyheadau manylion y prosiect a nodir yn y cais tendr (Atodiad 3 i'r adroddiad);

(b) cytuno i ddyfarnu'r contract i'r darparwr contract a enwir (fel nodir ym mharagraff 3.2 yr adroddiad) yn seiliedig ar eu cynigion tendr ar lefel y ffi a gynigir, a

(c) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35am.